7/3/17

CRIW CYMRAEG LLYTHYR NEWYDDION

Beth mae Criw Cymraeg wedi wneud

Mae Criw Cymraeg wedi dewis targedau rydyn ni eisiau cyrraedd. Dyma rai o'r targedau rydyn ni wedi cyrraedd:-
Mae Criw Cymraeg yn croesawu pawb i'r gwasanaeth. Hefyd mae Criw Cymraeg yn cymryd darn o'r gwasanaeth.
Nawr ar y iPad mae apiau Cymraeg. O gwmpas yr ysgol mae posteri i ddweud wrth bawb i siarad mwy o Gymraeg. Mae plant CA2 yn darllen storïau Cymraeg a Saesneg i'r Cyfnod Sylfaen.

Sgwad sgwennu

Aeth wyth person i Ysgol Penweddig i wneud y Sgwad Sgwennu. Roedden nhw wedi ysgrifennu dyddiadur am Caerdydd neu Glan Llyn mewn cystadleuaeth gyda'r Urdd. Roedd rhai wedi ysgrifennu llythyr am Mr. Urdd.

Llefaru

Ar y 8fed o Fawrth mae dau ddeg person yn mynd i Ysgol Plascrug i gystadlu mewn cystadleuaeth llefaru *Dost Ofnadw, Dw i isio bod yn gi, a Dwy ran i'r Corff.* Hefyd ar y 9fed o Fawrth mae 8 person yn mynd i Canolfan y Celfyddydau i llefaru mewn grwp. Y darn llefaru ydy *Pam fod coesau hir gan froga?*

Gwobr Efydd

Hwre! Rydyn ni wedi cyrraedd y Wobr Efydd. Daeth Mrs. Jones i'r ysgol i asesu. Da iawn ni!

Nawr …

Rydyn ni eisiau mwy o bobl i helpu ni i ddewis targedau dydyn ni ddim wedi cyrraedd ar gyfer y wobr arian. Rydyn ni yn mynd i annog pobl i wneud nhw.

Oscar, Charlie a Libby Blwyddyn 6